

Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru 2017 – 2020

Crynodeb o Gamau Gweithredu

Dyma rai o'r prif gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun:

1. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb drwy sicrhau bod gan ein gweithwyr gyfle i ddysgu pam mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i'w gwaith, gyrfaoedd ac i'w hunain fel unigolion. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Drefnu digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Rhoi cyhoeddusrwydd am gyrsiau cydraddoldeb i bob gweithiwr a'u hannog i ddilyn hyfforddiant ar gydraddoldeb yn rheolaidd;
- Cyhoeddi erthyglau ar y fewnwyd i dynnu sylw at faterion cydraddoldeb penodol;
- Cynnal trafodaethau ar-lein byw ar gydraddoldeb, amrywiaeth a materion cynhwysiant.

2. Byddwn yn ceisio ymgysylltu'n well â'i holl weithwyr, gan sicrhau bod safbwyntiau'r rhai â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried a'u cynrychioli. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn:

- Cynnwys Ochr yr Undebau Llafur a rhwydweithiau staff wrth ddiweddarau a datblygu polisïau adnoddau dynol newydd;
- Rhoi cynllun mentora o chwith ar waith gyda chanllawiau i gynorthwyo mentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora.

3. Byddwn yn gweithio hefyd i sicrhau bod gwell gwybodaeth ar gael am amrywiaeth y gweithlu drwy annog gweithwyr i rannu eu data amrywiaeth. Byddwn yn defnyddio'r data hwn i roi polisïau ar waith sy'n diwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig.

4. Byddwn yn casglu gwybodaeth i gael gwell dealltwriaeth o'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod ac yn gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau a nodir.

5. Byddwn yn ceisio bod yn sefydliad teg sy'n sicrhau bod cyfleoedd i bob gweithiwr, beth bynnag fo'i nodweddion gwarchodedig. Rydym wedi gosod targedau i wella canran y gweithwyr â nodweddion gwarchodedig erbyn 2020, gan gynnwys ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil.

6. Byddwn yn sefydliad cynhwysol sy'n croesawu pobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig, pobl sydd am weithio'n rhan-amser a phobl o gefndiroedd economaidd cymdeithasol is. Byddwn yn:

- Cefnogi rhwydweithiau amrywiaeth
- Cymryd camau cadarnhaol i annog recriwtio Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig a phobl anabl
- Gwellu cyfleoedd i bobl sy'n gweithio'n rhan-amser
- Sicrhau bod staff sy'n cymryd seibiant i rieni yn cael eu cefnogi ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.